

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL (MEMORANDWM RHIF 3)

### Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai 2021. Cwblhaodd y Bil ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 25 Hydref. Gwnaed gwelliannau anllywodraethol i'r Bil yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ac roeddent yn rhan o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'w ystyried yn Nhŷ'r Cyffredin. Mae'r Bil yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar hyn o bryd. Gellir cael copi ohono yn: [Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16 \[HL\] - Biliau Seneddol - Senedd y DU](#)
3. Ar 23 Tachwedd cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i gymalau 4, 18 a 25 (mae rhifau'r cymalau hyn yn cyfeirio at y Bil fel y'i cyflwynwyd yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin) i'w hystyried yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin sydd â goblygiadau o ran cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Cytunwyd ar y gwelliannau hyn ar 2 a 7 Rhagfyr. Mae'r memorandwm hwn wedi'i osod cyn gynted â phosibl ar ôl cyflwyno'r gwelliannau hyn ac i ganiatáu dadansoddi eu heffaith.

### Amcan(ion) polisi

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu'r sail ddeddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer y diwygiadau a nodir yn y Papur Gwyn ar Sgiliau ar gyfer Swyddi. Mae Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried bod y Bil yn ceisio gwella gweithrediad y system addysg sgiliau ac ôl-16 a chefnogi cyflwyno Gwarant Sgiliau Gydol Oes. Mae Llywodraeth y DU, drwy'r Bil hwn, yn ceisio cyflwyno mesurau i fynd i'r afael ag argymhellion a wnaed yn yr Adolygiad o Addysg a Chyllid Ôl-18, i adeiladu ar nodau'r Adolygiad o Gymwysterau Ôl-16 ar Lefel 3 ac is, ac i gefnogi gweithredu diwygiadau Llywodraeth y DU i gymwysterau addysg dechnegol, megis cyflwyno Lefelau T (cyrсияu sy'n cyfateb i 3 Safon Uwch sy'n cynnwys lleoliad diwydiant) a chymwysterau technegol uwch.

### Crynodeb o'r Bil

5. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg.
6. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
  - rhoi sail statudol i gynlluniau gwella sgiliau lleol;

- rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg ddynodi cyrff sy'n cynrychioli cyflogwyr i arwain y gwaith o ddatblygu'r cynlluniau gyda dyletswyddau ar ddarparwyr addysg bellach, addysg uwch a hyfforddiant annibynnol (ynghyd ag ysgolion ac academïau yn Lloegr) i gydweithredu wrth ddatblygu'r cynlluniau a rhoi sylw iddynt;
- gosod dyletswydd ar gorfforaethau addysg bellach, corfforaethau colegau chweched dosbarth a sefydliadau dynodedig yn Lloegr i adolygu pa mor dda y mae'r addysg neu'r hyfforddiant a ddarperir gan y sefydliad yn diwallu anghenion lleol, ac asesu pa gamau y gallai'r sefydliad eu cymryd i ddiwallu anghenion lleol;
- rhoi pŵer i'r Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol ddiffinio a chymeradwyo categorïau newydd o gymwysterau technegol sy'n gysylltiedig â safonau a arweinir gan gyflogwyr a galwedigaethau mewn gwahanol ffyrdd, a goruchwyllo'r addysg dechnegol a gynigir ym mhob llwybr galwedigaethol, gan gynnwys mecanweithiau i reoli'r broses o ddatblygu cymwysterau;
- gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â chyflwyno Hawl i Fenthyciad Gydol Oes gan gynnwys newidiadau i bwerau gwneud rheoliadau'r Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu cyllid myfyrwyr er mwyn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer ariannu modiwlau addysg uwch a chyrsgiau addysg bellach ac ar gyfer rhagnodi'r uchafswm cyllid cyffredinol y gall dysgwyr ei gael;
- i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i wneud rheoliadau er mwyn sicrhau neu wella ansawdd hyfforddiant cychwynnol athrawon addysg bellach;
- rhoi y tu hwnt i amheuaeth allu'r Swyddfa Myfyrwyr i asesu ansawdd darparwyr AU yn Lloegr, a gwneud penderfyniadau ar gydymffurfio a chofrestru drwy gyfeirio at ofynion sylfaenol ar gyfer ansawdd;
- i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer rhestr o ddarparwyr addysg neu hyfforddiant ôl-16, yn enwedig Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol, i nodi pa ddarparwyr sydd wedi bodloni amodau sydd wedi'u cynllunio i atal neu liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â darparwr yn rhoi'r gorau i ddarparu addysg a hyfforddiant mewn ffordd afreolus;
- ymestyn y pwerau ymyrryd statudol sy'n gymwys i gorfforaethau addysg bellach, corfforaethau colegau chweched dosbarth a sefydliadau dynodedig o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg i ymyrryd lle bu methiant i ddiwallu anghenion lleol, ac i gyfeirio newid strwythurol lle mae angen hynny er mwyn sicrhau gwelliant; a
- gwneud diwygiadau i egluro a gwella gweithrediad y gyfundrefn ansolfedd addysg bellach ar gyfer cyrff addysg bellach, o ran defnyddio trefniadau gwirfoddol cwmnïau, cynlluniau trosglwyddo a dynodi sefydliadau.

## **Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

7. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 9 Gorffennaf 2021, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU. Roedd y

Memorandwm yn cadarnhau fy mod yn cefnogi cymal 15 (cymal 14 fel y'i cyflwynwyd, Cymorth ar gyfer dysgu gydol oes) ond roedd gennyf bryderon ynghylch y goblygiadau posibl i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru sy'n deillio o gymalau 1 a 4.

8. Ar 29 Hydref gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif. 2) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am welliannau a wnaed gan Lywodraeth y DU i gymalau 1 a 4 o'r Bil yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 12 Hydref 2021.
9. Ers gosod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) mae'r Bil wedi symud ymlaen drwy Dŷ'r Arglwyddi lle derbyniwyd gwelliannau pellach sy'n gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
10. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn (Memorandwm Rhif 3) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am welliannau pellach a dderbyniwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ac yn nodi fy safbwynt ar welliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar gyfer cam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, ac y cytunwyd arnynt wedyn, sy'n gwneud darpariaeth sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd.
11. Pan fo gwelliannau wedi'u gwneud i gymalau a oedd yn y Bil fel y'i cyflwynwyd ac a nodwyd yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf fel rhai y mae rheol sefydlog 29.1(i) yn gymwys iddynt, nid yw ein safbwynt wedi newid o ran bod angen cydsyniad y Senedd ar y cymalau hyn yn rhinwedd rheol sefydlog 29.1(i).

## **Gwelliannau i'w nodi ers cyhoeddi Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Rhif 2)**

### **Cymalau 1 a 4**

12. Mae Cymalau 1 a 4 yn ymdrin â chynlluniau gwella sgiliau lleol. Nododd y Memorandwm ar 9 Gorffennaf effaith y cymalau hyn yn y Bil fel y'u cyflwynwyd i Senedd y DU. Cytunwyd ar welliannau Llywodraeth y DU i'r cymalau hyn yn ystod cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi a chyflwynwyd gwelliannau pellach gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a chytunwyd arnynt ar 2 Rhagfyr. Mae rhifau'r cymalau'n ymwneud â'r fersiwn o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin.
13. Cymal 1 – Cynlluniau gwella sgiliau lleol: mae gwelliannau a wnaed mewn perthynas â chymal 4 yn golygu na fydd y dyletswyddau y darperir ar eu cyfer gan gymal 1 yn gymwys mwyach i sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru.
14. Cymal 4 – Dehongli: gwnaed gwelliannau i'r diffiniad o 'ddarparwr perthnasol' yng nghymal 4 fel a ganlyn:

- diwygio'r diffiniad o sefydliad addysg bellach, fel bod sefydliad addysg bellach yn cael ei ddiffinio fel sefydliad yn Lloegr yn y sector addysg bellach o dan adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;
- diwygio'r diffiniad o sefydliad addysg uwch, fel mai dim ond sefydliad addysg uwch yn Lloegr o fewn adran 83(1) o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 sy'n cael ei gynnwys o dan y diffiniad o sefydliad addysg uwch;
- diwygio'r diffiniad o ddarparwyr hyfforddiant annibynnol, fel mai dim ond darparwyr hyfforddiant annibynnol sy'n cynnal gweithgareddau, neu'n cynnal gweithgareddau'n rhannol sy'n ymwneud â darparu addysg a hyfforddiant technegol ôl-16 yn Lloegr sy'n cael eu cynnwys; ac
- egluro nad oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol ond pŵer i wneud rheoliadau i gynnwys awdurdod lleol yn Lloegr, academi 16-19 neu ysgol yn Lloegr yn y diffiniad o ddarparwr perthnasol.

### **Gwelliannau anllywodraethol a wnaed yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi**

15. Cyflwynodd gwelliannau anllywodraethol a dderbyniwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi gymalau 18 a 25 i'r Bil. Byddai'r cymalau hyn yn gofyn am gydsyniad y Senedd pe baent yn aros yn y Bil.

#### **Cymal 18**

16. Cafodd cymal 18 ei gynnwys yn y Bil o ganlyniad i welliant anllywodraethol a dderbyniwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r cymal hwn yn gysylltiedig â darpariaeth yng nghymal 15 sy'n ymwneud â swyddogaethau cymorth i fyfyrwyr yr Ysgrifennydd Gwladol (pwnc yn y Memorandwm a osodwyd gerbron y Senedd ar 9 Gorffennaf) ac mae'n gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol, o fewn blwyddyn i gychwyn cymal 15, i baratoi a chyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar effaith y rheolau ynghylch cymhwysra personau sy'n ymgymryd â chyrsgiau addysg bellach neu uwch i gael cyllid ar y lefelau cyffredinol o sgiliau yng Nghymru a Lloegr. Rhaid gosod yr adroddiad gerbron dau dŷ'r Senedd.

#### **Cymal 25**

17. Cafodd cymal 25 ei gynnwys yn y Bil o ganlyniad i welliant anllywodraethol a dderbyniwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r cymal hwn yn darparu bod gan unrhyw berson o unrhyw oedran yr hawl i gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy hyd at Lefel 3 a gyflenwir gan ddarparwr addysg bellach neu dechnegol gymeradwy, os nad ydynt eisoes wedi astudio ar y lefel honno; a bod yn rhaid darparu cyllid i'r darparwr cymeradwy at y diben hwnnw. Mae hefyd yn gosod gofynion ar gyflogwyr mewn perthynas â gwario arian ar gyfer pobl ar brentisiaethau sydd o dan 25 oed. Mae cymal 25 yn ymestyn i awdurdodaeth Cymru a Lloegr ac nid oes dim yn ei gynnwys yn cyfyngu ar ei gymhwyso i Loegr.

## **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y gwelliannau a wnaed i'r Bil**

### **Cymalau 1 a 4**

18. Rwy'n falch o allu hysbysu'r Senedd bod y gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 1 a 4 yn mynd i'r afael â'm pryderon ynghylch gosod dyletswyddau statudol ar sefydliadau yng Nghymru. Mae'r gwelliannau hyn yn dileu sefydliadau addysg bellach ac uwch Cymru o gwmpas dyletswyddau'r cynlluniau gwella sgiliau lleol o dan gymal 1 o'r Bil.
19. Yn fy marn i, mae gwelliannau a wnaed gan Lywodraeth y DU i gymal 4 o'r Bil ar 2 Rhagfyr 2021 yn dileu'r angen i geisio cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 1 a 4. Y rheswm am hyn yw bod y darpariaethau bellach ond yn gymwys i addysg neu hyfforddiant yn Lloegr a ariennir gan awdurdodau Lloegr. Rwy'n croesawu'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â sefydliadau yng Nghymru.

### **Cymal 18 (fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin)**

20. Roedd cymal 18 fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi a chyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar effaith y rheolau ynghylch cymhwystra personau sy'n ymgymryd â chysiau addysg bellach neu uwch i gael cyllid ar y lefelau cyffredinol o sgiliau yng Nghymru a Lloegr. Mae lefelau sgiliau yng Nghymru yn fater y byddai'r Senedd yn disgwyl deddfu arno. Pe bai'r cymal hwn yn aros yn y Bil, ni fyddwn yn fodlon argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad iddo.
21. Mae gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd ac a dderbyniwyd wedyn yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 7 Rhagfyr wedi dileu cymal 18 o'r Bil.

### **Cymal 25 (fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin)**

22. Roedd Cymal 25 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn darparu bod gan unrhyw berson o unrhyw oedran yr hawl i gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy hyd at Lefel 3 a gyflenwir gan ddarparwr addysg bellach neu dechnegol gymeradwy, os nad ydynt eisoes wedi astudio ar y lefel honno; a bod yn rhaid darparu cyllid i'r darparwr cymeradwy at y diben hwnnw. Mae'r hawl i addysg am ddim a'r adnoddau ar gyfer gweithredu hawl o'r fath yn fater y byddai disgwyl i'r Senedd ddeddfu arno. Pe bai'r cymal hwn yn aros yn y Bil, ni fyddwn yn fodlon argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad iddo.
23. Mae gwelliannau Llywodraeth y DU a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd ac a dderbyniwyd wedyn yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar 7 Rhagfyr wedi dileu cymal 25 o'r Bil.

### **Goblygiadau ariannol**

24. Yng ngoleuni gwelliannau Llywodraeth y DU a dderbyniwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru sy'n deillio o gymalau 1 a 4.
25. Mae cymal 18 yn gosod dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i baratoi a chyhoeddi adroddiad yn flynyddol ar effaith y rheolau ynghylch cymhwysra personau sy'n ymgymryd â chysiau addysg bellach neu uwch i gael cyllid ar y lefelau cyffredinol o sgiliau yng Nghymru a Lloegr. Nid oes unrhyw ddyletswyddau wedi'u gosod ar Weinidogion Cymru. Mae'r cymal hwn wedi'i ddileu o'r Bil yn nhrefodion Tŷ'r Cyffredin ar 7 Rhagfyr.
26. Mae cymal 25 yn darparu bod gan unrhyw berson o unrhyw oedran yr hawl i gael addysg am ddim ar gwrs cymeradwy hyd at Lefel 3 a gyflenwir gan ddarparwr addysg bellach neu dechnegol gymeradwy, os nad ydynt eisoes wedi astudio ar y lefel honno; a bod yn rhaid darparu cyllid i'r darparwr cymeradwy at y diben hwnnw. Mae'r cymal hwn wedi'i ddileu o'r Bil yn nhrefodion Tŷ'r Cyffredin ar 7 Rhagfyr.

## **Casgliadau**

27. Fel y nodir uchod, fy marn i yw nad oes angen cydsyniad y Senedd mwyach ar gyfer cymalau 1 a 4 o'r Bil Sgiliau ac Addysg Ôl-16. Rwy'n croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi derbyn yr angen i wneud gwelliannau pellach mewn perthynas â chymhwysio dyletswyddau cynlluniau gwella sgiliau lleol i sefydliadau yng Nghymru. Rwyf o'r farn bod y gwelliannau a gyflwynwyd ar 23 Tachwedd, sydd bellach yn rhan o'r Bil, yn mynd i'r afael â'm pryderon ynghylch yr effeithiau posibl sy'n deillio o'r dyletswyddau a fyddai fel arall yn cael eu rhoi ar sefydliadau yng Nghymru sy'n darparu addysg a hyfforddiant ôl-16.
28. Ein prif bryder oedd bod gosod dyletswyddau ar sefydliadau yng Nghymru yn fater datganoledig. Mae gwelliannau Llywodraeth y DU yn parchu'r setliad datganoli ac yn osgoi gosod unrhyw ofynion statudol diangen ar sefydliadau yng Nghymru.
29. Mae angen cydsyniad ar gyfer cymal 15 o'r Bil (cymal 14 o'r Bil fel y'i cyflwynwyd gynt) sy'n diwygio swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 fel y'i nodir yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodais ar 9 Gorffennaf. Rwy'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r ddarpariaeth hon.
30. Byddwn yn parhau i fonitro taith y Bil drwy Senedd y DU ac yn diweddarau'r Senedd fel y bo'n briodol.

**Jeremy Miles AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**  
**10 Rhagfyr 2021**